



## **CBAC Tystysgrif Lefel Mynediad, Llwybrau Mynediad Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol a Lefel 3 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol: Trefniadau ar gyfer ymgeiswyr sy'n cwblhau gwaith asesiad dan reolaeth o gartref – Haf 2021**

### **Rhagarweiniad**

Mewn ymateb i gau'r ysgolion a'r colegau ar hyn o bryd, parhad y cyfyngiadau iechyd y cyhoedd, a dysgwyr yn absennol oherwydd hunanynysu, cytunwyd y dylai ymgeiswyr gael cwblhau gwaith ar asesiadau dan reolaeth gartref, **os yw'n saff ac yn ymarferol gwneud hynny**.

Bwriad y ddogfen hon yw gweithredu fel cyngor a chanllaw i athrawon, swyddogion arholiadau, uwch arweinwyr a phenaethiaid canolfannau o ran y trefniadau ar gyfer ymgeiswyr sy'n cwblhau gwaith asesiad dan reolaeth gartref.

Rydym eisoes wedi gwneud addasiadau i unedau asesiad dan reolaeth llawer o'n Cymwysterau Galwedigaethol, gan gynnwys tynnu'r gofynion i gael goruchwyliaeth uniongyrchol o lawer o'r tasgau asesu. Dylid darllen yr arweiniad yn y ddogfen hon ar y cyd â'r wybodaeth am ein haddasiadau.

**Rhaid** i chi sicrhau bod y trefniadau a amlinellir isod ar gael i bob ymgeisydd cymwys, **cyn belled ag y bo'n saff ac yn ymarferol gwneud hynny**. **Nid** oes gofyn i chi ofyn caniatâd gan CBAC na'i hysbysu pan fyddwch chi'n rhoi'r trefniadau ar waith. Fodd bynnag, dylech gadw cofnod o'r ymgeiswyr hynny a gwblhaodd asesiadau dan reolaeth dan y trefniadau hyn. Rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth hon os byddwn ni'n gofyn amdani.

### **Ymgeiswyr sy'n cwblhau gwaith ysgrifenedig, ymarferol, perfformiad a llafar gartref**

Mewn llawer o bynciau, mae adroddiadau neu waith ysgrifenedig arall naill ai'n rhan neu'n ffurfio'r cyfan o gyflwyniad asesiad dan reolaeth. Mewn pynciau eraill, cyflawnir gwaith ymarferol tuag at gynnyrch, perfformiad neu asesiad llafar.

Gallwch ganiatáu i ymgeiswyr gyflawni gwaith ysgrifenedig, ymarferol, perfformiad neu lafar gartref fel a ganlyn:

- symudodd y ganolfan i ddysgu o bell ar-lein
- mae'r ymgeisydd yn hunanynysu a ddim yn gallu mynychu'r ganolfan
- nid yw'r ymgeisydd yn gallu cael mynediad at gyfarpar arbenigol yn y ganolfan ond mae'n gallu gwneud hynny gartref
- mae'r ymgeisydd wedi methu'r cyfle i gynhyrchu gwaith yn y ganolfan
- mae cyfyngiadau amser yn golygu nad oes digon o amser addysgu ar gael i gwblhau gwaith ysgrifenedig ar gyfer asesiadau dan reolaeth yn y dosbarth.

Os yw'r briff yn nodi hynny gellir cael mynediad i'r rhyngwyd i wneud gwaith ymchwil, ond **rhaid** i chi atgoffa ymgeiswyr y **dylai** unrhyw waith fod yn waith iddyn nhw eu hunain yn unig. Os derbyniodd ymgeisydd gymorth, **rhaid** cydnabod hynny a/neu ei gofnodi ar ffurflen datganiad yr ymgeisydd.

Os ydych yn amheus ynghylch unrhyw waith sy'n digwydd ac yn cael ei gwblhau gartref, dylech fynegi'r pryderon hynny wrth yr ymgeisydd a rhoi cyfle arall i'r ymgeisydd hwnnw gwblhau'r gwaith.

### **Cyngor i athrawon lle mae ymgeiswyr yn cwblhau gwaith ysgrifenedig ac ymarferol gartref**

Os ydych chi'n caniatáu i ymgeiswyr gwblhau gwaith ysgrifenedig neu ymarferol gartref, mae'n bwysig eich bod yn gallu dilysu eu gwaith o hyd.

Cynghorwn eich bod yn gwirio'n rheolaidd er mwyn gallu cynnal y broses ddilysu hon. Gellid gwneud hyn fel a ganlyn:

- cynnal sesiwn holi ac ateb gyda'r ymgeisydd i gadarnhau ei ddealltwriaeth ac i'ch helpu i benderfynu a yw ei waith yn ddilys ai peidio. Dylech gadw cofnod o'r cwestiynau rydych chi'n eu gofyn a gwneud nodiadau am ymatebion yr ymgeisydd.
- fideo-gynadledda ar-lein i arsylwi'r gwaith a thrafod unrhyw gynnydd â'r ymgeisydd.
- cymharu perfformiad ymgeisydd gartref â gwaith a gwblhawyd yn yr ystafell ddosbarth
- gosod terfynau amser penodol i ddechrau a gorffen y gwaith, a chadw cofnodion o ba bryd y cynhyrwyd y gwaith. Dylai hwn fod yn ddyddiau yn hytrach nag wythnosau.
- atgoffa dysgwyr o risgiau cael cymorth gartref gan aelodau'r teulu a allai gael ei ystyried yn ormod o gymorth.

### **Cyngor i athrawon lle mae ymgeiswyr yn cwblhau tasgau perfformiad/llafar gartref neu'r tu allan i'r ganolfan**

Yr egwyddor sy'n berthnasol o hyd yw bod yn rhaid i'r athro allu asesu'r perfformiad neu'r llafar mor fanwl gywir ag arfer a gallu dilysu'r gwaith fel gwaith yr ymgeisydd ei hun. Edrych ar lif byw o'r perfformiad neu'r asesiad llafar fyddai'r ffordd orau o wneud hyn gyda goruchwyliaeth o bell. Ond, nid yw hyn bob amser yn bosibl ac efallai y bydd tystiolaeth arall yn ddigon i ganiatáu i'r athro asesu a dilysu. Gan ddibynnu ar y pwnc, gallai hyn gynnwys un neu fwy o'r canlynol fel y bo'n briodol i'r pwnc:

- recordiad fideo o'r holl berfformiad neu ran ohono
- recordiad sain o berfformiad
- tystiolaeth ffotograffig ac ysgrifenedig
- trafodaeth â'r dysgwr.

### **Asesiadau diogelwch a risg**

Ni all CBAC ddarparu cyngor iechyd a diogelwch. Dylai canolfannau ddilyn eu hasesiad risg a pholisi diogelu eu hunain wrth ganiatáu i ymgeiswyr gwblhau gwaith ymarferol gartref. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer unrhyw bwnc sydd fel arfer yn defnyddio cyfarpar a chyfleusterau arbenigol. Dylid rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- p'un a oes gan ddysgwyr fynediad diogel at adnoddau
- (o ran gwaith ymarferol) a oes modd cofnodi hwn yn ddiogel, ac a fydd y dysgwr yn gallu cynhyrchu'r gwaith i'r safon ddigonol
- p'un a oes angen defnyddio cyfarpar ar gyfer y dasg a fyddai fel arfer yn gofyn am oruchwyliaeth yn y ganolfan
- p'un a oes rhan benodol o dasg y gellid ei chyflawni'n ddiogel gartref
- p'un a oes gan yr ymgeisydd leoliad tawel gartref i allu cwblhau'r gwaith.